

Arolygiad Iechyd Meddwl Arolygiad Dilynol (Dirybudd)

Phoenix House:

Phoenix House ac Yr
Hafan

Dyddiad Arolygu: 7 – 9 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 17 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
2. Methodoleg.....	5
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth	6
4. Crynodeb.....	7
5. Canfyddiadau	8
Safonau Craidd	8
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	19
Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl.....	20
6. Y Camau Nesaf	23
Atodiad A.....	24

1. Cyflwyniad

Mae ein harolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn cynnwys ysbytai annibynnol a gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu'n agwedd allweddol ar ein hasesiad o ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau trwy:

- Ffonitro'r cydymffurfriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Pwyslais arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath:

- Yn ddiogel
- Yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig, cartrefol
- Yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol
- Yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth
- Yn cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Yn cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Yn cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn botensial
- Yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflwyno'r arolygiadau iechyd meddwl ac anabledd dysgu'n cynnwys:

- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff, gan gynnwys y clinigydd cyfrifol, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, addysgwyr, a staff nyrsio
- Cyfweiliadau ag uwch staff, gan gynnwys aelodau'r bwrdd lle bo'n bosibl
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau allweddol
- Arsylwi'r amgylchedd
- Craffu ar yr amodau cofrestru ar gyfer y sector annibynnol
- Archwilio ffeiliau staff, gan gynnwys cofnodion hyfforddiant
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Ystyried sut y gweithredir Mesur Cymru (2010)¹
- Archwilio cofnodion ataliaeth, cwynion, pryderon, ac atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed
- Rhoi trosolwg o brosesau storio, gweinyddu, archebu a chofnodi cyffuriau gan gynnwys cyffuriau a reolir
- Ystyried ansawdd y bwyd
- Gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a llyeg ar gyfer y broses arolygu, gan gynnwys adolygydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffuriad â Deddf Iechyd Meddwl 1983. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

¹ Deddfwriaeth sylfaenol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Mesur; ymhlith materion eraill, mae'n darparu ar gyfer asesu, cynllunio gofal, a chydgyssylltu mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd, ym maes iechyd meddwl ac anabledau dysgu, ag ysbyty Phoenix House, y Trallwng, ar noswaith 7 Tachwedd 2016 a thrwy'r dydd ar 8 a 9 Tachwedd 2016.

Cofrestrwyd ysbyty Phoenix House gyntaf ar 21 Awst 2007 ac mae'n berchen i Lighthouse Healthcare Cyf. Mae'r ysbyty wedi'i gofrestru ar hyn o bryd ar gyfer uchafswm o 23 oedolyn rhwng 18 a 65 oed sydd angen gofal a thriniaeth ar gyfer dibenion adsefydlu o anhwylder meddyliol ac a all fod yn gymwys i gael eu cadw o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Ers ein harolygiad blaenorol ym mis Ionawr 2015, mae'r ysbyty wedi newid o sefydliad ar gyfer dynion yn unig i sefydliad ar gyfer dynion a menywod. Mae'r gwasanaethau gwrywaidd a benywaidd mewn dwy ardal ar wahân:

- Phoenix House, sy'n darparu gofal ar gyfer hyd at 14 claf gwrywaidd
- Yr Hafan, sy'n darparu gofal ar gyfer hyd at chwe chlaf benywaidd

Roedd 14 o gleifion yn derbyn llety yn y sefydliad ar adeg yr arolygiad.

Mae Phoenix House mewn ardal breswyl yn nhref y Trallwng ym Mhowys. Cartref nyrsio oedd y safle ynghynt, a chafodd ei addasu er mwyn darparu'r gwasanaeth presennol.

Yn ystod ein hymweliad, gwnaethom adolygu pob man, gan adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, un adolygydd cymheiriaid, un adolygydd lleyg, a dau aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Cynhaliwyd ein harolygiad yn Phoenix House ar draws y gwasanaethau i ddynion a'r gwasanaethau i fenywod.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd ysbyty a oedd yn addas ar gyfer y grŵp cleifion ac a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.
- Tîm gofal ymroddedig a pharchus sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal urddasol.
- Amrywiaeth o weithgareddau ar gael i gleifion yn y wardiau ac yn y gymuned.
- Darpariaeth dda o fwyd ysbyty a maetheg.

Mae angen i'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod dogfennau gofal cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw mewn fformat priodol.
- Sicrhau bod dogfennau gofal cleifion yn adlewyrchu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.
- Sicrhau bod monitro iechyd corfforol yn cael ei gwblhau a bod camau gweithredol yn cael eu cymryd yn ôl y gofyn.
- Sicrhau bod gweithdrefnau archwilio cadarn ar gyfer rhagnodi, darparu a chofnodi meddyginiaeth ar y Cofnod Gweinyddu Meddyginiaethau (siartiau MAR) a'r gofrestr o gyffuriau a reolir.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Adeilad dau lawr yw Phoenix House sydd â lifft ar gyfer mynediad i'r llawr cyntaf. Mae cyfanswm o 20 o ystafelloedd gwely sydd â thoiled a chawod wrth ochr pob un. Roedd yr ysbyty mewn dwy uned ar wahân: un ar gyfer hyd at 14 o gleifion gwrywaidd a'r ail – o'r enw Yr Hafan – ar gyfer hyd at chwe chlaf benywaidd.

Roedd amgylchedd yr ysbyty wedi'i ddodrefnu i safon dda ac wedi'i gynnal a'i gadw drwyddi draw. Roedd yn olau, yn fodern ac yn groesawgar. Roedd hyn yn darparu amgylchedd dymunol ar gyfer gofal cleifion a oedd yn buddio profiad y claf.

Roedd yr ardal i ddynion wedi'i threfnu ar ddau lawr, gyda deg ystafell wely wedi'u lleoli lan llofft a phedair ystafell wely lawr llawr. Roedd pob ystafell i fenywod wedi'i lleoli ar lawr gwaelod Yr Hafan.

Gellid cael mynediad at yr uned i ddynion drwy dderbynfa'r ysbyty. Roedd ganddi ystafell fwyta fawr, lolfa fach dawel gyda ffôn talu, ystafell weithgareddau, lolfa fawr gyda theledu, ac ystafell gemau gyda bwrdd pŵl, bwrdd darts, beic ymarfer corff a llyfrau. Roedd ystafell golchi dillad yr oedd cleifion yn gallu ei defnyddio gyda goruchwyliaeth staff.

Roedd gan yr uned i fenywod fynedfa benodedig o faes parcio'r ysbyty. Roedd gan yr uned ystafell gymunedol gyda lle bwyta a lolfa; roedd yr ardal hon yn nodweddiadol iawn ac wedi'i haddurno'n ddymunol ac yn cynnwys celfwaith cleifion a chyn-gleifion. Roedd gan y ward ystafell dawel fel bod cleifion yn gallu ymlacio – roedd yr ystafell yn cynnwys cyfarpar synhwyraidd a oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan y cleifion.

Roedd gan yr uned i ddynion a'r uned i fenywod ceginau Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol. Cafodd cleifion eu hasesu i gael mynediad at yr ardaloedd hyn naill ai heb gwmni neu gyda goruchwyliaeth staff. Roedd y ceginau wedi'u diogelu gyda chlo â chod; roedd cleifion oedd â mynediad heb oruchwyliaeth i'r ceginau'n gwybod y cod ar gyfer y drysau. Roedd y rhain hefyd yn darparu'r claf gyda'r cyfleusterau i gynnal a dysgu sgiliau y byddent yn hyrwyddo eu hannibyniaeth.

Roedd modd cael mynediad i ystafell ymwelwyr o ardal dynion yr ysbyty a'r dderbynfa, fel bod ymwelwyr yn gallu cyfarfod â chleifion heb yr angen i gael mynediad at y ward. Roedd yr ystafell ymwelwyr hefyd yn briodol ar gyfer plentyn a oedd yn ymweld ac roedd yn gallu cael ei defnyddio gan y cleifion

gwrywaidd a benywaidd. Roedd ystafell ymwelwyr ychwanegol yn ardal menywod yr ysbyty. Roedd y rhain yn darparu cleifion â chyfleusterau priodol i gadw mewn cyswllt â'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Yn ystod ein harolygiad, nid oedd y cloc yn yr ystafell ymwelwyr i gleifion benywaidd yn gweithio. Roedd hefyd drws wedi torri o rywle arall o fewn yr ysbyty a oedd angen ei waredu.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob cloc mewn ardaloedd i gleifion yn gweithio ac yn arddangos yr amser cywir.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig waredu'r drws sydd wedi torri a sicrhau bod dodrefn, gosodiadau a chyfarpar sydd wedi torri'n cael eu gwaredu o ardaloedd i gleifion.

Yn ogystal â chawodydd ymhob un o ystafelloedd gwely'r cleifion, roedd ystafell ymolchi gyda chymorth ar yr unedau i ddynion a menywod.

Drwy gydol yr ysbyty, roedd digon o hysbysfyrddau i gleifion a oedd yn dangos gwybodaeth am weithgareddau yn y tŷ ac yn y gymuned, manylion cyswllt cyngor ac eiriolaeth, a gwybodaeth a chymorth cyfreithiol, ynghyd â deunydd therapiwtig.

Roedd ardaloedd yn yr ardd yr oedd cleifion yn gallu cael mynediad atynt drwy gydol y dydd; roedd y rhain ar gau rhwng hanner nos a 6am. Roedd cleifion yn gallu ysmegu mewn mannau penodedig o'r gerddi ac roedd seddi a chysgodfannau addas ar gael.

Preifatrwydd ac urddas

Drwy gydol yr arolygiad, gwnaethom arsylwi ar staff yn rhyngweithio ac yn gofalu am gleifion mewn modd tosturiol a pharchus. Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw'n dangos lefel uchel o wybodaeth ynghylch y cleifion, eu hoffterau unigol a'u hanghenion gofal. Dywedodd cleifion wrthym fod ganddynt nyrs benodedig a'u bod yn gallu cyfarfod â hi'n breifat.

Roedd gan gleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain gyda chyfleusterau en suite â chawodydd, a oedd yn darparu'r cleifion â lefel dda o breifatrwydd. Gwnaeth cleifion nodi fod staff yn cnocio cyn mynd i mewn, a oedd yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

Roedd gan y cleifion ddigon o le o fewn eu hystafelloedd gwely fel eu bod yn gallu storio eu heiddo eu hunain o fewn eu hystafelloedd. Gwnaethom nodi

fod cleifion yn gallu rhoi lluniau i fyny i bersonoli eu hystafelloedd gwely, a oedd yn darparu cleifion â lle personol fel eu bod yn gallu ei wneud yn groesawgar ar gyfer eu hunain.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn gwneud galwadau ffôn yn breifat drwy eu ffonau symudol eu hunain neu'r ffôn talu. Gall y cleifion hefyd ddefnyddio'r ystafell ymwelwyr i gwrdd â theulu a ffrindiau yn breifat.

Diogelwch

Nodwyd bod gan yr holl staff ar ddyletswydd larymau diogelwch er mwyn seinio rhybudd i'r lleill petai argyfwng. Rhoddwyd larymau hefyd i staff AGIC er mwyn sicrhau eu diogelwch wrth iddynt ymweld â'r ysbyty.

Ymhob un o'r ystafelloedd gwely, roedd botymau i alw am nyrs wedi'u lleoli o fewn cyrraedd o'r gwely fel bod cleifion yn gallu galw am gymorth pe bai angen. Roedd hefyd botymau galw wedi'u lleoli'n briodol drwy gydol yr ardaloedd cymunedol.

Wrth gyrraedd yr ysbyty ar y noswaith gyntaf, roedd y nyrs â gofal yn yr uned i ddynion yn gallu ein darparu â manylion y nifer o gleifion a oedd yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cynnwys y nifer o gleifion a gedwir dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys pa adran, ar gyfer unedau i ddynion a menywod, ynghyd â nifer y rhai hynny oedd yn yr ysbyty heb gael eu cadw o dan y Ddeddf.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi fod y lefelau staffio'n briodol ar gyfer y nifer o gleifion a oedd yn yr ysbyty, ac yn cynnwys y staff hynny a oedd yn arsylwi cleifion.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi cynnal archwiliad pwyntiau clymu ar gyfer y lleoliad ym mis Tachwedd 2015, a gafodd ei adolygu ym mis Rhagfyr 2015 a mis Mawrth 2016. Ar gyfer rhai o'r pwyntiau clymu a nodwyd, dangosodd yr archwiliad, ar gyfer y cleifion oedd yn cael mynediad at yr ardaloedd hyn, y dylai'r cleifion gael asesiadau risg unigol. Er bod hwn yn ddull rhesymol, yn enwedig mewn lleoliad adsefydlu, nid oedd unrhyw asesiadau risg cleifion unigol yn y nodiadau gofal cleifion i adlewyrchu cyfarwyddyd yr archwiliad o bwyntiau clymu.

Nid oedd yr archwiliad pwynt clymu'n cynnwys pob ardal cleifion yr ysbyty, felly efallai na fydd rhai risgiau pwyntiau clymu'n cael eu nodi ac, o ganlyniad, byddai staff yn anymwybodol o ran sut i reoli'r risgiau hyn.

Mae'r diffygion a nodwyd yn yr archwiliad pwynt clymu ac asesiadau risg cleifion unigol yn risg i ddiogelwch cleifion.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gwblhau archwiliad pwynt clymu cynhwysfawr o Phoenix House ac mae'n rhaid adolygu'r archwiliad hwn fel mater o drefn.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg pwyntiau clymu cleifion unigol yn cael eu cwblhau yn ôl cyfarwyddiadau archwiliad pwyntiau clymu'r darparwr cofrestredig. Mae'n rhaid adolygu'r rhain yn rheolaidd.

Gwnaethom adolygu'r system electronig ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau. Roedd y system yn galluogi staff i fewnbynnu digwyddiadau'n electronig ac yn darparu uwch staff gyda'r gallu i adolygu, llofnodi a dadansoddi gwybodaeth ar gyfer tueddiadau a themâu.

Cadwyd y canmoliaethau a'r cwynion a dderbyniwyd gan y sefydliad fel copi caled yn swyddfa rheolwr yr ysbyty. Roedd yn gadarnhaol i nodi nifer fawr o ganmoliaethau gan gleifion, teuluoedd a nyrsys dan hyfforddiant.

Fodd bynnag, nid oedd y ffeil gwynion wedi'i threfnu'n dda ac nid oedd bob amser yn cynnwys yr holl wybodaeth am y gŵyn a'r canlyniad. Roedd hi'n anodd adolygu'r cwynion a chadarnhau'r camau gweithredu a gymerwyd gan y sefydliad heb gyfeirio at gofnodion eraill a gedwir rhywle arall o fewn y sefydliad. Mae hyn yn golygu nad oeddwn yn gallu cael ein sicrhau bod yr holl gwynion a dderbyniwyd gan y sefydliad yn cael eu hadolygu, pa gamau gweithredu oedd wedi cael eu cymryd gan y sefydliad, a bod yr achwynydd wedi derbyn canlyniad ysgrifenedig i'r gŵyn.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal cofnod systematig o bob cwyn, gan gynnwys manylion o'r archwiliadau a wnaed, y canlyniad, ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd.

Yn ystod ein hadolygiad o gwynion, gwnaethom ddadansoddi dwy gŵyn am nyrs asiantaeth a oedd wedi gweithio yn yr ysbyty. Yn dilyn un o'r cwynion yn cael ei chynnal, mae'r rheolwr cofrestredig wedi cadarnhau na fyddai'r nyrs asiantaeth yn gwneud unrhyw waith pellach yn Phoenix House. Hysbysodd y darparwr yr asiantaeth am hynny ynghyd â darparu'r asiantaeth ag argymhelliad ar gyfer goruchwyliaeth y nyrs asiantaeth. Oherwydd yr hyn a wnaeth y nyrs asiantaeth yn y ddau ddigwyddiad, gwnaeth AGIC hysbysu'r darparwr cofrestredig i atgyfeirio'r nyrs at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mae'r darparwr cofrestredig wedi cadarnhau yn dilyn ein harolygiad ei fod wedi cysylltu â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gadarnhaodd nad oedd

angen i Phoenix House atgyfeirio'r nyrs asiantaeth atynt. Roedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn hapus â'r argymhellion a wnaed gan reolwr yr ysbyty i'r asiantaeth ar gyfer y nyrs asiantaeth i'w cwblhau. Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth eu bod yn teimlo na ddylai fod unrhyw gyfyngiadau ar allu'r nyrs gofrestrdig i ymarfer.

Ystafelloedd clinigol a rheoli meddyginiaeth

Ar y cyfan, canfuom fod meddyginiaethau yn Phoenix House yn cael eu rheoli'n wael. Canfuwyd nifer o gamgymeriadau cofnodi yn ystod ein harolygiad y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rheoli'n briodol. Yn ogystal, roedd angen gwella'r defnydd a'r rheolaeth o clozapine.²

Roedd gan y darparwr cofrestredig archwiliad clinigol a ddylid cael ei gynnal a'i gofnodi ar y Rhestr Gwirio Meddyginiaeth Ddyddiol, unwaith yn ystod y sifft dydd ac unwaith yn ystod y sifft nos. Nid dyma oedd yr achos yn ymarferol, gan fod gan y Rhestrau Gwirio Meddyginiaeth Ddyddiol y gwnaethom eu hadolygu hepgoriadau ar nifer o sifftiau bob wythnos. Roedd yn amlwg nad oedd y Rhestr Gwirio Meddyginiaeth Ddyddiol yn cael ei chwblhau'n rheolaidd ar yr adegau gofynnol.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cwblhau'r Rhestr Gwirio Meddyginiaeth Ddyddiol fel sy'n ofynnol gan bolisi'r darparwr cofrestredig.

Dylai staff fesur a chofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth ymhob clinig fel rhan o'r Rhestr Gwirio Meddyginiaeth Ddyddiol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd adegau pan nad oedd hyn wedi cael ei gwblhau. Mae hyn yn golygu nad oedd staff bob amser yn gallu sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd gofynnol.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn monitro ac yn cofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth.

Roedd gan bob clinig yn yr ysbyty ystafell glinig ei hun gyda meddyginiaeth yn cael ei storio mewn cypyrddau meddyginiaeth diogel o fewn pob un o'r ystafelloedd clinig. Roedd pob cwpwrdd lle cedwid cyffuriau a reolir yn ddiogel, ond nid oedd pob cofnod yn y llyfr cyffuriau a reolir wedi'i gwblhau'n

²Mae clozapine yn feddyginiaeth wrthseicotig a ddefnyddir i drin sgitsoffrenia.

gywir. Roedd bylchau ar gyfer amser rhoi'r cyffur a reolir, ynghyd â hepgoriadau o ran y dos.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob nyrs gofrestredig yn dilyn polisi cyffuriau a reolir y sefydliad.

Roedd gan staff fynediad at bolisiau'r darparwr cofrestredig o ran rheoli a defnyddio meddyginiaeth drwy fewnrwyd y sefydliad. Gofynnwyd i staff a oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi bod lle'r oedd meddyginiaeth wedi cael ei rhoi i leddfu symptomau aciwt cychwynnol, gan ystyried y nifer o dderbyniadau 'argyfwng', megis defnyddio tawelu cyflym. Nid oedd y staff yn ymwybodol o unrhyw anawsterau cleifion diweddar. Fodd bynnag, nodwyd digwyddiad yn ystod y pythefnos blaenorol. Nid oedd y staff yn ymwybodol o ofynion monitro iechyd corfforol a nodwyd yn y polisi lleol (Trais ac ymddygiad ymosodol: rheolaeth tymor byr mewn lleoliadau iechyd meddwl, iechyd a chymunedol: 2015).

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisiau gofynnol ar gael yn rhwydd ymhob ystafell glinig.

Yn ystod ein harsylwad o rownd meddyginiaeth, nodwyd nad oedd y nyrs gofrestredig a oedd yn cwblhau'r rownd meddyginiaeth yn gwybod beth oedd un o'r cyffuriau a reolir, ac felly'r rheswm pam oedd yn cael ei rhoi nac effeithiau na sgil-effeithiau'r feddyginiaeth. Mae hyn yn golygu bod yr aelod o staff yn methu â thrafod y feddyginiaeth a'r sgil-effeithiau gyda'r claf cyn ei rhoi.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan staff, cyflogedig neu asiantaeth, wybodaeth a dealltwriaeth o'r meddyginiaethau y maent yn eu rhoi.³

Yn ystod ein hadolygiad o feddyginiaethau, gwnaethom sylwi ar nifer o bryderon o ran y defnydd o clozapine a monitro corfforol cleifion a oedd yn derbyn clozapine, gyda sawl hepgoriad o ran y broses monitro corfforol. Gwnaeth ein trafodaethau â staff dystio fod staff yn ymwybodol bod gofyniad i fonitro meysydd penodol o iechyd corfforol yn rheolaidd ar gyfer cleifion sy'n derbyn clozapine, ond nid oedd hyn bob amser yn cael ei gwblhau yn ôl y gofyn. Nodwyd hefyd, lle'r oedd monitro wedi digwydd, nad oedd camau gweithredu a wnaed mewn ymateb i newidiadau mewn canlyniadau claf, e.e.

³ Safonau Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer rheoli meddyginiaeth, Adran 4, Safon 8.

gostyngiad mewn pwysedd gwaed, wedi cychwyn camau gweithredu gan staff nyrsio na'r darparwr cofrestredig.

Gwnaethom godi'r diffyg monitro iechyd corfforol o ran clozapine gyda'r darparwr cofrestredig fel llythyr sicrwydd ar unwaith. Mae'r darparwr cofrestredig wedi cadarnhau eu bod wedi dechrau gwiriadau dyddiol ac archwiliadau wythnosol ar gyfer cwblhau y monitro iechyd corfforol clozapine; bod hyfforddiant rheoli clozapine ynghyd â hyfforddiant sgiliau clinigol a rhoi Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol wedi'u trefnu ar gyfer staff; bod y weithdrefn rheoli clozapine yn cael ei hadolygu; a'u bod yn rheoli perfformiad nyrsys nad ydynt yn cwblhau gwiriadau.

Wrth adolygu meddyginiaeth cleifion, roedd un claf yn derbyn clozapine ynghyd â meddyginiaeth wrthseicotig arall. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod crynhoad plasma-clozapine wedi cael ei wirio cyn rhoi'r ail gyffur gwrthseicotig, fel y nodir yng nghyllwau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain.⁴

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dogfennau ar gael sy'n dangos bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r darparwr cofrestredig wedi dilyn canllawiau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain.

Nodwyd bod 25mg yn llai o clozapine yng nghyflenwad meddyginiaeth un claf nag yr oedd cofnodion yn nodi. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd hwn wedi cael ei gyfrif amdano ac nid oedd y rheolwr cofrestredig yn gallu egluro'r anghysondeb.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn gallu rhoi cyfrif am yr holl feddyginiaeth yn Phoenix House.

Yn ystod ein harchwiliad meddyginiaeth, gwnaethom hefyd nodi nifer o gamgymeriadau cofnodi meddyginiaeth ar siartiau'r Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth. Roedd bylchau yn y siartiau hyn felly nid oedd yn eglur a oedd y feddyginiaeth wedi cael ei rhoi na'r rheswm pam na roddwyd y feddyginiaeth. Mae hyn yn golygu yn y sefyllfaoedd hynny nad oedd staff yn gallu cadarnhau a oedd claf wedi cymryd ei feddyginiaeth ai peidio.

Cam gofynnol

⁴ <http://www.evidence.nhs.uk/formulary/bnf/current/4-central-nervous-system/42-drugs-used-in-psychoses-and-related-disorders/421-antipsychotic-drugs>

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl nyrsys cofrestredig yn cwblhau Cofnodion Gweinyddu Meddyginiaeth (siartiau MAR) yn gywir.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau archwilio cadarn ar waith ar gyfer rhagnodi, rhoi a chofnodi meddyginiaeth ar siartiau MAR.

Y tîm amlddisgyblaeth

Roedd yr ysbyty'n cael ei reoli gan reolwr yr ysbyty, oedd wedi'i gofrestru ag AGIC. Roedd rheolwr yr ysbyty'n cael ei gefnogi gan reolwr gwasanaethau clinigol a thîm amlddisgyblaethol. Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys dau glinigydd cyfrifol rhan amser, nyrsys cofrestredig, seicolegydd, therapydd galwedigaethol, cynorthwydd therapi galwedigaethol, a thîm o weithwyr cymorth gofal iechyd.

Nododd staff fod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio mewn ffordd broffesiynol a chydweithredol a bod y safbwyntiau proffesiynol unigol hynny'n cael eu gwerthfawrogi a'u hystyried fel rhan o'r gofal amlddisgyblaethol.

Wrth adolygu rotâu staff a lefelau staffio ar adeg ein harolygiad, nid oedd gennym unrhyw bryderon gyda lefelau staffio'r ysbyty. Mae nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd yr ysbyty'n gweithio sifftiau 12 awr o 8am i 8pm ac o 8pm i 8am, gydag aelodau tîm amlddisgyblaethol eraill yn bresennol drwy gydol y dydd.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gan yr ysbyty swyddi gwag ar gyfer nyrsys^{1/2}/3 cofrestredig, sef dau aelod o staff cyfwerth ag amser llawn, a gweithwyr cymorth gofal iechyd, sef chwe aelod o staff cyfwerth ag amser llawn. Defnyddiodd y darparwr cofrestredig staff asiantaeth i gyflenwi'r bylchau o fewn y rota staffio. Lle bo'n bosibl, nodwyd y byddai'r ysbyty'n bwcio staff cronfa ac asiantaeth mewn blociau fel bod gan aelodau staff wybodaeth o'r grŵp cleifion, a oedd yn eu cynorthwyo i ddarparu cysondeb gofal ar gyfer y cleifion hyn.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr ysbyty'n cadw cofnod o'r staff asiantaeth yr oeddent yn eu defnyddio a'u cymwysterau, eu sesiynau ymsefydlu i'r ysbyty, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bod unrhyw gofrestrïadau proffesiynol o hyd yn ddilys. Fodd bynnag, roedd y ffeil staff asiantaeth yn cynnwys cwmnïau asiantaeth a gweithwyr asiantaeth nad oedd yr ysbyty bellach yn eu defnyddio. Yn ogystal, lle'r oedd staff asiantaeth wedi'u cofrestru gydag asiantaethau lluosog, nid oedd eu dogfennau, e.e. gwiriadau sefydlu'r ysbyty, bob amser mewn un lleoliad ffeil ond, ar rai

adegau, wedi'u gwasgaru ar draws gwahanol rannau o'r ffeil. Roedd hyn yn golygu bod adolygu'r ffeil ar gyfer staff asiantaeth cyfredol yn eithaf anodd.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod systematig o staff asiantaeth yn cael ei ddefnyddio yn Phoenix House.

Roedd yr ysbyty'n cadw ffeil o staff unigol ar gyfer aelodau parhaol o staff. Roedd y ffeiliau y gwnaethom eu hadolygu'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol am recriwtio ac yn cynnwys gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Lle y bo'n berthnasol, roedd y sefydliad yn monitro cofrestriad proffesiynol aelodau unigol o staff.

Hyfforddiant

Gwnaethom adolygu'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff a gyflogir ar sifftiau rheolaidd yn yr ysbyty a staff cronfa; roedd graddfeydd cwblhau ar gyfer staff yn dda iawn, ac yn fwy na 90%. Fodd bynnag, nodwyd ar gyfer hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol, mai dim ond tri o'r naw nyrs gofrestrdig (gan gynnwys staff cronfa) a phump o'r 35 gweithiwr cymorth (gan gynnwys staff cronfa) a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant. Oherwydd natur y gwasanaeth, mae'n bwysig bod gan bob aelod o staff sy'n gweithio yn yr ysbyty hyfforddiant diweddaedig yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005.

Roedd aelodau o staff yn gwneud goruchwyliaeth fisol, ac wrth adolygu'r cofnodion goruchwyllo, tystiwyd fod hon yn cael ei chwblhau'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd adegau pan nad oedd goruchwyliaeth wedi cael ei chynnal am dros ddeufis.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod goruchwyliaeth reolaidd yn cael ei chwblhau gan staff ar gyfer eu datblygiad proffesiynol.

Roedd hi'n amlwg bod staff yn derbyn arfarniadau perfformio blynyddol, ond ar gyfer nifer o aelodau o staff, roedd eu harfarniad blynyddol fis yn hwyr, ond cytunwyd ar ddyddiadau newydd. Mae'n bwysig bod staff yn derbyn adborth amserol o'u perfformiad a bod amcanion eglur yn cael eu nodi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Cam gofynnol

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff yn ymgymryd â'i arfarniad blynyddol o fewn yr amser gofynnol.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Roedd darpariaeth therapïau a gweithgareddau o fewn Phoenix House a'r gymuned yn dda iawn. Gwnaeth yr holl staff a chleifion y siaradom â nhw sylwadau cadarnhaol am y therapïau a'r gweithgareddau a gynigir gan yr ysbyty. Roedd hysbysfwrdd penodol yn yr uned i ddynion a'r uned i fenywod yn dangos amserlen o weithgareddau wythnosol, gan gynnwys gweithgareddau nos a chymunedol.

Roedd hysbysiadau hefyd wedi'u harddangos yn cynnig cyfleoedd i weithio ar fferm leol ac amserlen ar gyfer y ganolfan leol er mwyn nofio, defnyddio'r gampfa a chwarae badminton. Roedd cleifion hefyd yn gallu defnyddio gwasanaethau Ponthafren, sef elusen iechyd meddwl gymunedol sy'n cynnig cyfleoedd i bobl gael sgwrsio, ymlacio a chymryd rhan mewn gweithdai a gweithgareddau er mwyn hyrwyddo llesiant, dysgu ac adferiad o fewn y gymuned.

Trwy gydol ein harolygiad, gwnaethom arsylwi ar gleifion yn ymgymryd â gweithgareddau o fewn yr ysbyty a nifer o gleifion yn cael mynediad at y gymuned gydag aelodau o staff. Roedd yn gadarnhaol nodi bod gan yr ysbyty dau gerbyd ysbyty i helpu wrth alluogi gweithgareddau cleifion yn y gymuned.

Mae seicolegydd yn darparu therapi grŵp gyda'r cleifion, gan gynnwys grŵp ymwybyddiaeth ofalgar, ynghyd â sesiynau unigol. Roedd y therapydd galwedigaethol a'r cynorthwydd yn cynnal rhestrau gwirio o ddiddordebau cleifion, sy'n llywio amserlenni ar gyfer cleifion unigol. Roeddent hefyd yn cynnal asesiadau llythrennedd a rhifedd sylfaenol pan fo angen.

Roedd hysbysfwrdd iechyd corfforol yn yr ysbyty, ac mae grŵp hyrwyddo iechyd yn cwrdd unwaith yr wythnos.

Bwyd a maeth

Gwnaeth yr holl staff a chleifion sylwadau cadarnhaol am y bwyd a roddir iddynt yn yr ysbyty, gan ddweud bod dewis ac ansawdd y bwyd, a'r maint a roddir, yn dda. Roedd cleifion yn derbyn tri phryd o fwyd bob dydd, gan gynnwys brecwast, cinio a swper, lle'r oedd cleifion yn dewis eu hopsiynau o fwydlen.

Arsylwom ar amser cinio yn ystod ein hymweliad, a gwelsom fod staff a chleifion yn bwyta gyda'i gilydd yn yr ystafell fwyta, ac felly roedd y profiad bwyd yn therapiwtig.

Roedd yr ysbyty'n darparu digon o offer a lle storio er mwyn i'r cleifion allu prynu a storio eu byrbrydau a diodydd eu hun. Mae'r ceginau cleifion ar y ward yn darparu cyfleusterau i'r cleifion allu paratoi eu diodydd eu hunain pan fo angen.

Llywodraethu

Dan Reoliad 28 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig baratoi adroddiad ysgrifenedig ynglŷn â'r meysydd a restrir yn Rheoliad 28 ar gyfer AGIC bob chwe mis. Roedd y darparwr wedi cwblhau ei adroddiad Rheoliad 28 mwyaf diweddar ym mis Awst 2016.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi dechrau trefniant gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i anfon cleifion priodol at Phoenix House am leoliadau 'argyfwng' tymor byr. Y trefniant hwn oedd cynorthwyo wrth ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol lleol i drigolion Powys yn hytrach na chleifion yn cael eu gofyn i fynd i ysbyty y tu allan i Bowys. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, ni chafodd y cytundeb ei gadarnhau a dim ond cyswllt drafft oedd ar gael er bod y trefniant yn weithredol. Mae'n hanfodol bod y darparwr cofrestredig a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn arwyddo contract ar gyfer eu trefniant.

Cam gofynnol

Mae'r darparwr cofrestredig a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn llofnodi contract ar gyfer y trefniant i ddarparu gwelyau derbyn mewn argyfwng yn Phoenix House.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol saith o'r cleifion dan gadwad, a oedd yn derbyn gofal yn Phoenix House ar adeg ein hymweliad.

- Roedd y dogfennau cadw statudol a adolygwyd gennym yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.
- Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i apelio yn erbyn cael eu cadw.
- Nid oedd gan ffeiliau ward ar gyfer cleifion gasgliad cyfan o'u dogfennau cadw bob amser; roedd y rhain ar gael ar y safle yn swyddfa'r gweinyddwr.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ffeiliau ward cleifion yn cynnwys copi llawn o bapurau cadw fel bod staff y ward yn gallu gwirio dilysrwydd cadw claf pan fo angen.

- Roedd dogfennau absenoldeb Adran 17 wedi'u cwblhau yn unol â'r Ddeddf. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw le ar y ffurflen i awdurdodi absenoldeb Adran 17 ar gyfer y claf i'w harwyddo neu i ddangos bod y claf wedi derbyn copi o'r ffurflen.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 i gynnwys lle i glaf gael arwyddo.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 i gynnwys lle i ddangos bod y claf wedi derbyn copi.

Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cynllunio gofal a thriniaeth ar gyfer pedwar o gleifion yn Phoenix House. Ar y cyfan, nid oedd y dogfennau gofal wedi cael eu trefnu'n dda ac nid oeddent yn adlewyrchu'r meysydd o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Roedd dogfennaeth gofal cleifion yr ysbyty'n electronig ac yn cael ei chadw fel copi caled gyda dogfennau cleifion eraill. Roedd gan bob claf ffeil gofal, ond nid oedd mynegai ar gyfer y rhain ac roeddent yn anhrefnus gyda ffeilio anghyson rhwng ffeiliau cleifion gwahanol. Roedd hyn yn broblematic ar gyfer unrhyw un sy'n darparu gofal i'r grŵp o gleifion nad oeddent yn gyfarwydd â'r dogfennau, megis staff cronfa neu asiantaeth. Gyda chymorth staff y ward, roeddem yn gallu dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r dogfennau gofal perthnasol.

Er bod ffeiliau cleifion yn cael eu storio yn y swyddfeydd nyrsio mewn cabinet ffeilio dan glo, nid oedd unrhyw drefn o ran lle roedd pob ffeil claf yn cael ei storio. Gosodwyd ffeiliau mewn unrhyw le a oedd ar gael o fewn y cypyrddau.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cofnodion cleifion yn cael eu storio mewn trefn systematig o fewn yr ardal storio ddiogel a ddarperir.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion unigol yn drefnus, yn cael eu cadw'n ddiweddaedig, ac yn cynnwys hanes meddygol y claf a nodiadau cyfredol pob triniaeth.

Cwblhawyd dogfennau gofal i safon anghyson gan staff nyrsio. Gwnaethom arsylwi ar rai staff nyrsio'n mewnbynnu gwybodaeth gofal cleifion gynhwysfawr, ond roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth gofal a roddwyd yn y dogfennau cleifion o safon broffesiynol wael. Ni wnaeth y darparwr cofrestredig gynnal archwiliad o ddogfennau gofal i adolygu a nodi meysydd o arferion da a gwael.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig archwilio dogfennau cleifion i sicrhau bod cofnodion staff mewn dogfennau gofal o safon broffesiynol da.

Roedd gan y darparwr cofrestredig systemau anghyson nad oeddent yn cael eu cwblhau'n rheolaidd gan y staff yn ôl y gofyn. Lle'r oedd siartiau monitro iechyd corfforol ar waith, megis pwysedd gwaed, monitro pwysau, monitro ysgarthion, Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol, ayyb, roedd y rhain yn aml yn cynnwys llyfnydd gwag lle nad oedd darlleniadau wedi cael eu cymryd yn ôl y gofyn.

Roedd gan bob claf ffeil iechyd corfforol a oedd yn cael ei storio yn ystafell glinig gyfatebol yr ysbyty. Roedd y rhain hefyd yn anhrefnus ac angen eu trefnu er mwyn cael eu defnyddio'n hawdd. O fewn rhai o ffeiliau iechyd corfforol cleifion oedd llyfrynnau 'Fy Iechyd Corfforol', ond roedd y rhain naill ai heb eu cwblhau neu'n wag.

Mae dogfennau monitro iechyd corfforol ar waith i sicrhau bod staff yn cynnal camau gweithredu pan fo angen. Mae staff nad ydynt yn cwblhau'r dogfennau gofynnol yn risg i iechyd a lles cleifion.

Roedd tystiolaeth anghyson bod monitro rheolaidd amrywiaeth pwysau neu lefelau glwcos gwaed yn cael ei gwblhau. Mae hyn yn cael ei argymhell gan NICE (Seicosis a Sgitsoffrenia mewn Oedolion: Atal a Rheoli 2014). Mae angen i'r grŵp o gleifion sy'n cymryd meddyginiaeth wrthseicotig annodweddiadol (nid clozapine yn unig) gael cynlluniau gofal iechyd corfforol y gall pob aelod o staff gael mynediad atynt. Ar un o ddiwrnodau'r arolygiad, nid oedd y staff asiantaeth yn ymwybodol o'r cleifion oedd angen unrhyw wiriadau iechyd corfforol y diwrnod hwnnw. Roedd un claf wedi cael ei drosglwyddo i'r ysbyty cyffredinol dosbarth lleol oherwydd llewygu posibl. Roedd cofnodion arwyddion hanfodol y claf hwn yn dangos pryderon wythnos cyn hynny, a rheolaeth gostyngiad ystumiol posib mewn pwysedd gwaed. Nododd trafodaethau â staff hefyd fod claf arall wedi cael nifer o apwyntiadau ysbyty wedi'u canslo, a oedd wedi'u bwriadu i asesu cathetr ymbreswyllo. Roedd hyn yn bryder gan fod y claf yn cael ei beryglu ac yn agored i haint (Safon Ansawdd NICE QS77: Anymataliaeth Wrinol mewn Menywod, 2015). Dylai'r darparwr wneud pob ymdrech i sefydlu llwybr gofal ar y cyd gyda'r ysbyty cyffredinol dosbarth.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig archwilio dogfennau monitro iechyd corfforol i sicrhau bod dogfennau'n cael eu storio'n systematig a bod staff yn cwblhau'r dogfennau monitro iechyd corfforol yn ôl y gofyn.

Roedd gan y cleifion ddiffyg asesiad risg a chynlluniau rheoli eglur a chyfredol. Yn nogfennau unigol cleifion, gwnaethom adolygu bod risgiau wedi cael eu nodi a digwyddiadau wedi cael eu cofnodi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddogfennau penodol oedd yn nodi risgiau i gleifion unigol a gwybodaeth ynghylch sut y dylai staff reoli'r risgiau hyn.

Gwnaethom fynegi'r pryder hwn mewn llythyr sicrwydd ar unwaith. Mae'r darparwr cofrestredig wedi cadarnhau bod gan bob claf bellach asesiad risg diwedddedig a chynllun rheoli yng nghofnodion ei nodiadau gofal ac y byddant yn cael eu hadolygu pan fydd angen; y bydd y tîm amlddisgyblaethol yn diweddarau'r holl gynlluniau ymddygiad cadarnhaol a rheoli risgiau'n fisol neu yn ôl yr angen ac y bydd y rhain yn cael eu harchwilio; ac y bydd

cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol yn cael eu cynnwys yn ffeil pob claf.

Nid oedd y dogfennau gofal yn cynnwys unrhyw anghenion cleifion heb eu diwallu. Mae'n bwysig bod hyn yn cael ei nodi i sicrhau bod anghenion pob claf yn cael eu nodi o fewn eu dogfennau gofal.

Cam gofynnol

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt wedi cael eu diwallu'n cael eu nodi o fewn eu dogfennau gofal.

Roedd pob claf wedi'i gofrestru â meddyg teulu ac yn cael mynediad at wasanaethau cymunedol megis deintyddion, triniaeth traed, yr optegydd, ayb. Roedd cofnodion manwl o fonitro iechyd corfforol parhaus cleifion o fewn dogfennau gofal cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad, a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn y lleoliad yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar gyfer iechyd meddwl/anabledd dysgu.

Atodiad A

Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu: Cynllun Gwella

Darparwr: Lighthouse Group

Ysbyty: Phoenix House

Dyddiadau'r arolygiad: 7 – 9 Tachwedd 2016

Rheoliad	Gofyniad sicrwydd ar unwaith	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
21(2)(a)	<p>Cafodd nyrs asiantaeth ei diarddel rhag ei dyletswyddau yn Phoenix House yn barhaol yn dilyn digwyddiad. Cafodd canlyniad yr archwiliad ei rannu gyda'r asiantaeth nyrsio lle roedd y nyrs gofrestrdig yn cael ei chyflogi ynghyd ag argymhellion o reolwr yr ysbyty.</p> <p>Ar ôl adolygu cynnwys y digwyddiad (a digwyddiadau blaenorol lle roedd nyrs yr asiantaeth ynghlwm) a thystiolaeth a gasglwyd gan y darparwr cofrestredig wrth adolygu'r ddwy gŵyn, barn AGIC yw bod angen</p>	<p>Cafodd trafodaeth dros y ffôn gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 18 Tachwedd 2016. Fel y nodir yng nghanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, cysylltwyd â'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwr am ganllawiau cyn atgyfeirio atynt. Siaradodd rheolwr yr ysbyty ag ymgynghorydd rheoleiddiol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ynghylch y digwyddiadau/cwynion a godwyd fel y nodwyd yng Nghynllun Sicrwydd ar Unwaith AGIC.</p>	Yvonne Williams	Cwblhawyd

		gweithio. Nododd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ein bod wedi diogelu'r claf drwy atal y nyrs asiantaeth, trwy archwilio, a thrwy beidio â'i defnyddio yn y gwasanaeth. Argymhellion wedi'u hanfon at y nyrs asiantaeth i'w dilyn.		
15(1)(b)	<p>Roedd diffyg monitro iechyd corfforol ar waith i gleifion a oedd yn cymryd clozapine. Mae hyn yn berygl arwyddocaol i ddiogelwch y cleifion.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob claf sy'n cymryd clozapine yn derbyn monitro iechyd corfforol clozapine a bod hyn yn cael ei gwblhau gan staff yn ôl y gofyn.</p>	<p>Y canlynol i'w cwblhau mewn trefn blaenoriaeth:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwiriadau dyddiol ar unwaith i'w cwblhau ar gyfer iechyd corfforol cleifion sydd ar clozapine – cadarnhau pob gwiriad yn y cyfarfod gweithwyr proffesiynol dyddiol. 2. Archwiliad wythnosol ar gyfer gwiriadau clozapine eu bod wedi'u cwblhau. 3. Hyfforddiant rheoli clozapine – gyda Fferyllfa Speeds – wedi'i drefnu ar gyfer 14 Rhagfyr 2016. 4. Hyfforddiant sgiliau clinigol a Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol wedi'u trefnu ar gyfer 	<p>Jennifer Swift Pob nyrs</p> <p>Jennifer Swift Nyrsys</p> <p>Yvonne Williams</p> <p>Yvonne Williams / Fferyllfa Speeds</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>31 Ionawr 2017</p>

		<p>22 Rhagfyr 2016.</p> <p>5. Adolygu gweithdrefn rheoli clozapine ar gyfer Phoenix House – mewn trafodaeth â Fferyllfa Speeds.</p> <p>6. Nodiadau ffeil ar gyfer nyrsys nad ydynt yn cwblhau gwiriadau fel sy'n ofynnol gan ganllawiau ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r cynlluniau gofal clozapine a roddir ar bresgripsiwn.</p>	Jennifer Smith / Yvonne Williams	Ar unwaith
19(1)(b)	<p>Wrth adolygu dogfennau gofal cleifion, roedd diffyg asesiadau risg cleifion eglur a chyfredol o fewn y cofnodion gofal cleifion. Mae hyn yn risg arwyddocaol i ddiogelwch cleifion, staff ac ymwelwyr.</p> <p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan bob claf asesiadau risg eglur a chyfredol sy'n cael eu cadw yn eu dogfennau cleifion fel bod staff yn gallu cyfeirio'n rhwydd at yr asesiadau risg.</p>	<p>1. Mae gan bob claf asesiad risg a chynllun rheoli cyfredol yng nghofnodion eu nodiadau gofal ac mae angen eu hadolygu pan fo angen.</p> <p>2. Trefnu cyfarfod cynllun ymddygiad cadarnhaol i ddiweddarau cymorth ymddygiad cadarnhaol unigolyn sydd wedi dod i ben.</p> <p>3. Tîm amlddisgyblaethol i ddiweddarau'r holl gynlluniau ymddygiad cadarnhaol a rheoli risgiau'n fisol neu yn ôl yr angen.</p> <p>4. Mae angen i bob claf gael</p>	<p>Jennifer Swift Rheolwr y Gwasanaethau Clinigol</p> <p>Yvonne Williams</p> <p>Y tîm amlddisgyblaethol / Clinigydd Cyfrifol / Seicoleg / Therapi Galwedigaethol</p>	<p>31 Ionawr 2017</p> <p>Ar unwaith</p> <p>31 Ionawr 2017</p> <p>31 Ionawr 2017</p>

		<p>cynllun cymorth ymddygiad cadarnhaol o fewn y nodiadau gofal. Byddant yn cael eu hadolygu bob mis fel lleiafswm neu'n fwy aml yn ôl y gofyn.</p> <p>5. Cynllun cymorth ymddygiad cadarnhaol cyfredol i'w argraffu a chopi caled i fod mewn nodiadau pob claf er mwyn i staff gael mynediad.</p> <p>6. Mynegai diweddaedig ar gyfer pob aelod o staff i leoli nodiadau gofal sydd wedi cael ei rannu â'r holl staff i'w cyfeirio ato wrth weithio gyda phob claf.</p>		<p>Ar unwaith</p> <p>Cwblhawyd</p>
Rheoliad	Cam gofynnol	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
26(2)(c)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob cloc yn yr ardaloedd i gleifion yn gweithio ac yn arddangos yr amser cywir.	Batris y cloc wedi'u disodli.	Yvonne Williams	Cwblhawyd

26(2)(a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig waredu'r drws sydd wedi torri a sicrhau bod dodrefn, gosodiadau ac offer sydd wedi torri'n cael eu gwaredu o ardaloedd cleifion.	Cafodd y drws ei ddisodli yn ôl i'r ystafell lle y cafodd ei ddifrodi gan glaf. Nid oedd y drws yn gallu cael ei symud yn syth gan fod angen dau berson i'w godi am resymau iechyd a diogelwch.	Yvonne Williams	Cwblhawyd
19(1)(b) 25(2)(a) 47(1)(c)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig gwblhau archwiliad pwynt clymu cynhwysfawr o Phoenix House a'i adolygu'n rheolaidd.	Archwiliad pwyntiau clymu i gael ei adolygu a phob claf sydd â risg clymiad i'w gael yn eu cynlluniau gofal a'i gynlluniau rheoli risg.	Yvonne Williams	Cwblhawyd
19(1)(b) 9(1)(k) 47(1)(a)(b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod asesiadau risg clymiad cleifion unigol yn cael eu cwblhau yn unol â chyfarwyddiadau gan archwiliad pwyntiau clymu'r darparwr cofrestredig. Mae'n rhaid adolygu'r rhain yn rheolaidd.	Adolygu'r asesiad risg clymiad ar gyfer yr ysbyty a chynnwys risgiau clymiad unigol ar gyfer pob claf yn ei gynllun rheoli risg.	Yvonne Williams	31 Ionawr 2017
24(5)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig gynnal cofnod systematig o bob cwyn, gan gynnwys manylion o'r archwiliadau a wnaed, y canlyniad, ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd.	Gweithdrefn gwynion i'w rhoi ar waith yn llawn a dechrau cofnodi'r cwynion ar Prism i gynhyrchu nifer a chanfyddiadau craidd archwiliadau.	Yvonne Williams	31 Ionawr 2017

		Cofnod cwynion i'w ddefnyddio ar gyfer pob cwyn a dderbynnir gyda chyfeiriad. Dyddiad a dderbyniwyd/llythrennau cyntaf y rheolwr sy'n archwilio/llythrennau cyntaf y claf: e.e. 191216/YW/XX.	Jennifer Swift	Wedi'i gychwyn ac yn barhaus
15(5)(a)(b) 9(1)(m)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cwblhau'r Rhestr Gwirio Meddyginiaeth Ddyddiol fel sy'n ofynnol gan bolisi'r darparwr cofrestredig.	Archwilio hyn yn wythnosol gyda ffurflen adolygu newydd. Nyrs â gofal i adolygu eu gwaith.	Jennifer Swift / Yvonne Williams	Cychwyn 1 Ionawr 2017 ac adolygiadau parhaus
15(2)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn monitro ac yn cofnodi tymereddau oergelloedd meddyginiaeth.			
9(1)(m)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y polisiâu gofynnol ar gael ymhob ystafell glinig.			
21(2)(b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff, cyflogedig neu asiantaeth, yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r meddyginiaethau y maent yn eu rhoi.	Adolygu a diweddarau'r holl broffiliau asiantaeth staff sy'n cael eu defnyddio yn Phoenix House. Diweddarau eu hyfforddiant a'r ffolder sy'n cynnwys eu holl ddogfennau staff.	Yvonne Williams	31 Ionawr 2017
15(5)(b)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau	Darperir Llyfr Fformiwlâu	Yvonne Williams	31 Ionawr 2017

	bod dogfennau ar gael sy'n dangos bod gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar gyfer y darparwr cofrestredig wedi dilyn canllawiau Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain.	Cenedlaethol Prydain i bob aelod o staff i'w ddefnyddio wrth roi presgripsiwn a meddyginiaeth i gleifion. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud fel y gall pob aelod o staff fynychu.		
15(5)(a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod staff yn cyfrif am yr holl feddyginiaeth yn Phoenix House.	Mae meddyginiaethau'n cael eu cyfri bob nos ar gyfer pob claf. Mae'r broses wedi cael ei hadolygu ac mae meddyginiaeth yn cael ei chyfrif bob nos. Os oes unrhyw gamgymeriadau neu anghysondebau o ran meddyginiaeth, mae ffurflen ddigwyddiad yn cael ei chwblhau ac mae angen i'r rheolwr gwasanaethau clinigol a'r rheolwr iechyd archwilio.	Jennifer Swift Yvonne Williams	Ar unwaith ac yn barhaus
15(5)(a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob nyrs gofrestrredig yn cwblhau'r siartiau Cofnod Gweinyddu Meddyginiaeth yn gywir.	Yn Phoenix House, rydym yn defnyddio siartiau presgripsiynau ac mae pob siart yn cael ei harchwilio gan Speeds. Mae pob cam gweithredu o archwiliadau'n cael ei gwblhau yn ôl y gofyn.	Jennifer Swift Yvonne Williams	Cwblhawyd
9(1)(m)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau archwilio cadarn ar	Mae gweithdrefnau archwilio ar waith o Fferyllfa Speeds. Mae		

	<p>waith ar gyfer rhagnodi, rhoi a chofnodi meddyginiaeth ar siartiau MAR.</p>	<p>Phoenix House yn cwblhau archwiliadau mewnol yn yr ystafell glinig a hefyd ar gyfer rhoi meddyginiaeth. Archwiliad diweddar wedi'i gyflawni ar 22 Rhagfyr 2016.</p> <p>Mae staff yn cael eu hyfforddi gan Fferyllfa Speeds i ragnodi, rhoi a chofnodi meddyginiaeth ar siartiau presgripsiwn.</p> <p>Mae polisïau a gweithdrefnau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer pob nyrs a meddyg sy'n rhagnodi ac yn rhoi meddyginiaethau.</p> <p>Monitro cydymffurfiaeth ac ymdrin ag unrhyw bryderon fel rhan o reoli perfformiad.</p>	<p>Jennifer Swift</p> <p>Yvonne Williams</p>	<p>Dyddiad hyfforddiant 6 Tachwedd 2016</p> <p>Adolygu a monitro parhaus.</p>
20(1)(a)(b)	<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod systematig o'r staff asiantaeth sy'n cael eu defnyddio yn Phoenix House.</p>	<p>Mae gwiriadau'n cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o staff asiantaeth cyn iddynt ddechrau gweithio yn Phoenix House – diweddarau'r ffolder asiantaeth gyda'r holl staff sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Staff nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn</p>	<p>Yvonne Williams</p>	<p>31 Ionawr 2017</p>

		o bryd i'w harchifo.		
20(2)(a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod goruchwyliaeth reolaidd yn cael ei chwblhau gan staff ar gyfer eu datblygiad proffesiynol.	Mae sesisynau goruchwyllo'n cael eu cynnal yn chwarterol yn unol â'n polisi goruchwyllo.	Yvonne Williams	Parhaus
20(2)(a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff yn cynnal ei arfarniad blynyddol o fewn y terfyn amser gofynnol.	Mae pob aelod o staff yn cael ei wahodd am arfarniad blynyddol a dyddiad wedi'i drefnu er mwyn iddynt fynychu. Mae dyddiadau'n cael eu newid yn unol ag anghenion y gwasanaeth ac mae pob aelod o staff yn cael ei wneud yn ymwybodol ac mae dyddiad newydd yn cael ei drefnu pan fydd angen. Mae dyddiad yr amserlen arfarnu'n ganllaw sy'n dibynnu ar anghenion yr uned.	Yvonne Williams Jennifer Swift	Cwblhawyd ac yn barhaus
9(1)(a)	Mae'r darparwr cofrestredig a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn arwyddo contract ar gyfer y trefniant i ddarparu gwelyau derbyn mewn argyfwng yn Phoenix House.	Bydd y mater yn cael ei gyfeirio ato eto gan Gomisiynydd Iechyd Meddwl Powys.	Julian Ball	Ionawr 2017

9(1)(f) 23(1)(a)(ii)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ffeiliau ward cleifion yn cynnwys copi llawn o bapurau cadw fel bod staff y ward yn gallu gwirio dilysrwydd cadw claf pan fo angen.	Mae holl waith papur y Ddeddf lechyd Meddwl a gedwir yn y swyddfa Deddf lechyd Meddwl yn cael ei sganio i'r nodiadau gofal, sef y cofnod electronig a ddefnyddir ar gyfer pob claf yn Phoenix House. Archwilio'r hyn sy'n cael ei storio yn y cofnod electronig a'r ffolder Deddf lechyd Meddwl yn y swyddfa weinyddol bob mis.	Yvonne Williams Claire Mcvicar, Gweinyddwr y Ddeddf lechyd Meddwl	Cwblhawyd ac yn barhaus.
9(1)(g)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 i gynnwys lle i glaf gael llofnodi.	Ffurflen Adran 17 wedi'i hadolygu i gynnwys llofnod cleifion a thystiolaeth o'r copi a roddwyd.	Claire Mcvicar Yvonne Williams	Cwblhawyd
9(1)(g)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ffurflen awdurdodi absenoldeb Adran 17 i gynnwys lle i ddangos bod y claf wedi derbyn copi.	Cafodd y ffurflen Adran 17 ei hadolygu i gynnwys llofnod cleifion a thystiolaeth o gopi'n cael ei roi.	Claire Mcvicar Yvonne Williams	Cwblhawyd
23(2)(a)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio mewn trefn systematig o fewn y lle storio diogel a ddarperir.	Yn Phoenix House, rydym yn defnyddio systemau cadw cofnodion electronig. Mae'r holl gofnodion cleifion ar bapur yn cael eu storio dan glo yng nghorlan y nyrsys ac yn y swyddfa Deddf	Jennifer Swift Yvonne Williams	31 Ionawr 2017

		lechyd Meddwl. Mae adolygiad o'r mynegai wedi cael ei adolygu yn unol â'r tabiau cofnod electronig, er mwyn dod o hyd i ddogfennau'n hawdd.		
23(2)(a)(i) a (ii)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion unigol yn drefnus, yn cael eu cadw'n gyfredol, ac yn cynnwys hanes meddygol y claf a nodyn cyfredol o bob triniaeth.	Yn Phoenix House, rydym yn defnyddio systemau cadw cofnodion electronig. Mae'r holl gofnodion cleifion ar bapur yn cael eu storio dan glo yng nghorlan y nyrsys ac yn y swyddfa Deddf Iechyd Meddwl. Mae pob cofnod copi caled yn cael ei sganio i nodiadau gofal, sy'n storio'r holl gofnodion yn unol â hynny.	Jennifer Swift Yvonne Williams	Cwblhawyd
9(1)(o)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig archwilio dogfennau cleifion i sicrhau bod cofnodion staff mewn dogfennau gofal o safon broffesiynol dda.	Mae'r holl gofnodion cleifion yn cael eu harchwilio ar rota dreigl yn unol â'r archwiliad cofnodion clinigol. Adolygu'r ffurflen archwilio i'w chysoni â chofnod electronig y nodiadau gofal.	Yvonne Williams	Cwblhawyd
9(1)(o)	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig archwilio dogfennau monitro iechyd corfforol i sicrhau bod dogfennau'n cael eu storio'n systematig a bod staff yn cwblhau'r dogfennau monitro iechyd	Hyfforddiant sgiliau clinigol a Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol wedi'u trefnu ar gyfer 22 Rhagfyr 2016.	Jennifer Swift	Cwblhawyd Yn syth ac yn

	corfforol yn ôl y gofyn.	Mae adolygiad o'r archwiliad misol wedi cael ei gwblhau i dystio pob dogfen sydd angen ei chwblhau ar gyfer monitro iechyd corfforol.		barhaus, i'w gwblhau 31 Ionawr 2017
15(1)(a)(c)	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion cleifion nad ydynt yn cael eu diwallu'n cael eu cofnodi o fewn eu dogfennau gofal.	Mae pob claf yn derbyn adolygiad unigol i asesu ar gyfer ei anghenion gofal. Mae anghenion na chawsant eu diwallu'n cael eu cyfeirio at sefydliadau sy'n gallu. Mae cyfarfod yn parhau i gael ei drefnu gan nyrs benodedig a'r rheolwr gwasanaethau clinigol i adolygu gofal pob claf. Mae'r holl anghenion heb eu diwallu'n cael eu dogfennu a'u trafod yn eu hadolygiad rowndiau ward gyda'r tîm amlddisgyblaethol.	Jennifer Swift Y tîm amlddisgyblaethol	Parhaus